**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Hydref 2021 |
| **Teitl:** | Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 – 2027 a Chynllun Gweithredu |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | I'r Cyngor ystyried y Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 – 2027 i'w hargymell i'w chymeradwyo i'r Cyngor. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | Y Cynghorwyr Alun Williams a Catherine Hughes |

Ystyriwyd y Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 – 2017 gan y Cabinet ar 5 Hydref 2021 a chytunwyd i argymhell i'r Cyngor ei gytuno.

Cytunwyd yn 2017 y dylid cynnal adolygiad systematig o'r holl strwythurau a meysydd gwasanaeth i sicrhau bod gan wasanaethau ar draws y Cyngor y gallu a'r cynhwysedd i gyflawni blaenoriaethau'r Cynlluniau a'r Amcanion Corfforaethol.

Datblygodd y trawsnewid yn dda gyda'r prif newid terfynol sef integreiddio gofal cymdeithasol a dysgu gydol oes i'r tri gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Porth Cynnal ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid yn ffurfio'r 5 prif faes sy'n dod o fewn y raglen drawsnewid Gydol Oes a Lles.

Cychwynnodd ailstrwythuro ffurfiol y gwasanaethau hyn ddiwedd 2019 gyda chyflwyno strwythur Rheolwyr Corfforaethol ar draws y gwasanaethau. Gohiriwyd oherwydd cynnydd yn y pandemig yn ystod 2020 ond yna aethpwyd ymlaen â hyn ymhellach o fis Medi 2020 ymlaen. Cydnabuwyd bod angen strategaeth glir i yrru a chyfathrebu'r angen am newid a sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.
Mae diweddariadau a gweithdai gydag aelodau wedi digwydd trwy gydol y cyfnod newid. Ymgynghorwyd â Staff ac Undebau Llafur yn ystod pob rhan o'r broses.

**STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHEDU**
Ar ddechrau'r rhaglen crëwyd gweledigaeth a oedd yn adlewyrchu'r rhaglen drawsnewid uchelgeisiol:

'Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn.. Sicrhau mynediad teg at wasanaeth rhagorol – rhai cyffredin a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a lesiant pob dinesydd.

Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd fyn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.'

Mae'r Strategaeth Gydol Oes a Lles yn egluro'r weledigaeth a'r cynlluniau ar gyfer ei gweithredu, yn gosod y weledigaeth a'r dulliau perthnasol a gymerir i drawsnewid sut

mae lles a diogelwch pobl Ceredigion yn cael eu cefnogi. Rhoddir llinell amser o 2021-2027 i gyflawni'r newidiadau.

Mae'r strategaeth yn disgrifio'r siwrnai y bydd y Cyngor yn ei chymryd, ochr yn ochr â'i bartneriaid, i drawsnewid ei ffordd o weithio. Mae'n darparu'r cyd-destun strategol i yrru comisiynu yn y dyfodol, darparu gwasanaethau gweithredol, rheoli gofal a rôl u Cynghorau wrth integreiddio gwasanaethau. Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn:

- Rhoid Model Cyflenwi Gydol Oes a Lles newydd ar waith
- Lleihau'r galw ar ofal a chymorth wedi'i reoli a chanolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd eu hangen fwyaf
- Cefnogi ein gweithlu i ddatblygu dulliau newydd o gefnogi unigolion yng Ngheredigion
- Canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol neu adennill yr annibyniaeth y maen nhw ei eisiau a'i werthfawrogi
- Darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu system iechyd, lles a gofal cymdeithasol mwy cyd-gysylltiedig

Mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at 5 amcan allweddol, sy'n cael eu sylfaeni gan 12 maes ffocws angen sy'n edrych ar achosion sylfaenol pam y gallai fod angen gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a/neu ofal ar deuluoedd ac unigolion.

Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw amlinellu'r glir yr hyn sy'n ofynnol dros y tair blynedd nesaf (a nodi beth sy'n debygol yn y blynyddoedd y tu hwnt i hynny) i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol er mwyn cwrdd â 5 amcan allweddol y Strategaeth ac, ochr yn ochr a'n partneriaid, ail-gydbwyso'r gofal a'r gefnogaeth i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yng Ngheredigion.

| | |
|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** Oes, ac mae'n parhau |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** |
| **Argymhelliad:** | **I'r Cyngor gytuno'r Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | I gytuno'r Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021-2017 |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Ystyriwyd y strategaeth a'r cynllun gweithredu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a |

| | |
|---|---|
| | Chymunedau Dysgu ar 17 Medi 2021 ac argymhellwyd eu cymeradwyo |
| **Fframwaith Polisi:** | Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014<br>Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>RISCA |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Galluogi gwytnwch unigolion a theuluoedd |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Ar ôl cwblhau'r Cynllun Gweithredu, y nod yw y bydd y gwasanaethau'n fwy gwydn yn ariannol |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Mae'r Strategaeth yn cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru 2014 |
| **Goblygiadau staffio:** | Ailstrwythuro parhaus gwasanaethau a thimau i gyflawni'r strategaeth |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Risg(iau):** | Methu â gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014<br>Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Atodiadau:** | Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Gydol Oes a Lles |
| **Swyddog Adrodd:** | Caroline Lewis |
| **Dyddiad:** | 11.10.21 |

**Cyngor Sir Ceredigion – Strategaeth Gydol Oed a Lles – Cynllun Gweithredu**

Mae'r Strategaeth Gydol Oed a Lles yn egluro'r weledigaeth a'r cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhaglen Gydol Oed a Lles. Mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at 5 amcan allweddol ac yn eu tro mae 12 maes angen â ffocws, sy'n edrych ar achosion sylfaenol pam y gallai fod angen gwybodaeth, cyngor, cymorth a/neu ofal ar deuluoedd ac unigolion, yn sail i'r rhain. Y rhain yw:

**Camddefnyddio Sylweddau**

- Camddefnyddio sylweddau yw defnyddio alcohol, cyffuriau anghyfreithlon, neu feddyginiaethau dros y cownter neu feddyginiaethau ar bresgripsiwn mewn ffordd nad ydyn nhw i fod i gael eu defnyddio a all effeithio'n negyddol ar iechyd a bywyd beunyddiol yr unigolyn, ei berthnasoedd a'i deulu. Bydd y Strategaeth Gydol Oed a Lles yn rhoi gwybodaeth a chyngor i addysgu trigolion Ceredigion, darparu gweithgareddau iach i ddifyrru sy'n hybu dewisiadau cadarnhaol ac yn rhoi cymorth uniongyrchol lle bo angen i unigolion a theuluoedd y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt.

**Iechyd Meddwl**

- Mae problemau iechyd meddwl yn effeithio ar oddeutu un o bob pedwar o bobl mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae problemau o'r fath yn amrywio o broblemau cyffredin fel iselder ysgafn a gorbryder lefel isel i gyflyrau mwy difrifol fel sgitsoffrenia ac anhwylder deubegynol. Maent yn costio oddeutu £34 biliwn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig. Gallai'r gallu i gyfeirio, rhoi cyngor/gwybodaeth a neu ymyrryd mewn ffordd amserol yn gynnar eu hatal rhag cyrraedd argyfwng a'u grymuso i reoli eu lles eu hunain.

**Pryderon ariannol**

- Gall teuluoedd sydd â phryderon neu ofidiau ariannol fynd i argyfwng, bydd y gallu i gyfeirio at gyngor a gwybodaeth ynghylch ystod o faterion ariannol gan gynnwys rheoli budd-daliadau a dyledion yn cefnogi teuluoedd ac unigolion i reoli eu hamgylchiadau eu hunain ac atal caledi ariannol ac anawsterau o ran tai.

**Teimlo’n ynysig**

- Gall y teimlad o deimlo’n ynysig oddi wrth deulu a ffrindiau beri i unigolion, fel plant a phobl ifanc, teuluoedd ag un rhiant, gofalwyr a'r henoed fynd yn ofidus ac yn orbryderus. Trwy nodi'r problemau hyn yn gynnar, gellir rhoi cymorth ar waith i liniaru rhag gwaethygiad posibl. Gellir rhoi cyngor a chymorth a gellir cyfeirio pobl at grwpiau, clybiau neu sefydliadau cymunedol lle bo hynny'n berthnasol.

**Eiddilwch**

- Mae eiddilwch yn cyfeirio at gydnerthedd meddyliol a chorfforol unigolyn, waeth beth fo'i oedran ac a yw'n gadarn o gorff neu fel arall, neu, ei allu i gael ei sbonc yn ôl a gwella o ddigwyddiadau fel salwch ac anaf. Nid yw'n golygu bod gan berson ddiffyg gallu neu na all fyw bywyd llawn ac annibynnol. I bobl sydd mewn perygl o eiddilwch mae yna ffactorau neu amodau risg y gellir eu hatal neu eu haddasu. Mae'r rhain yn cynnwys gormodedd o alcohol; nam gwybyddol, cwympiau, nam ar weithgaredd, problemau clyw, problemau hwyliau, cyfaddawd maethol, anweithgarwch corfforol, amlgyffuriaeth, smygu, problemau golwg, ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Mae'n bwysig bod gan bobl sy'n byw gydag eiddilwch neu sydd mewn perygl o eiddilwch fynediad at wasanaethau ataliol a chymorth cynnar sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n dda ac yn cydgysylltiedig i osgoi problemau rhag codi yn y lle cyntaf a gwasanaethau ymateb a ddefnyddir yn gyflym pe bai unrhyw beth yn mynd o'i le.

**Cam-drin Domestig**

- Mae cam-drin domestig yn ddigwyddiad neu'n batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodol, bygythiol, diraddiol a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol, gan bartner neu gyn-bartner neu gan aelod o'r teulu neu ofalwr. Mae plant/pobl Ifanc yn cael eu heffeithio'n andwyol gan fyw gydag effeithiau Cam-drin Domestig yn eu bywydau ac ynghyd â phroblemau o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig yw achosion mwyaf cyffredin plant yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant ac mewn rhai achosion, yn dod yn plant sy'n derbyn gofal. Trwy ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig ar lefel ymyrraeth gynnar/atal a hefyd lle bo angen, rhoi cymorth dwys i deuluoedd pan fydd eu sefyllfa ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau, ein nod yw lleihau, ymhen amser, nifer y plant sy'n mynd i ofal gan yr Awdurdod Lleol a galluogi a chefnogi plant i fyw bywydau hapus a chyflawn, gan ffynnu yn eu teulu a'u cymuned eu hunain,

**Annibyniaeth**

- Mae bywyd annibynnol gwerthfawr yn un lle rhoddir parch, urddas a phreifatrwydd i berson ac a gefnogir i wneud ei ddewisiadau ei hun ym mhob agwedd ar ei fywyd. Mae gwell ymwybyddiaeth o'r rôl y gall cymryd risg yn bositif ei chwarae wrth helpu pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth yn ganolog i unrhyw strategaeth cymorth ac ymyrraeth, fel y mae sgiliau dyfnach o amgylch asesu ar sail cryfderau, cymorth o ran eiriolaeth a nodau wedi'u teilwra'n unigol; pob un yn canolbwyntio ar lais, dewis a rheolaeth.

**Addysg Cyflogaeth Hyfforddiant**

- Mae'r rhagolygon ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd yr economi'n profi dirwasgiad gyda diweithdra'n cynyddu'n sylweddol, yn enwedig mewn ardaloedd fel Ceredigion, oherwydd strwythur ei heconomi, h.y. mentrau bach sy'n fwy bregus ar adegau o argyfwng ariannol. Efallai y bydd angen cyngor a chymorth, cymorth o ran cyflogadwyedd a chyfle i gael gafael ar hyfforddiant sgiliau er mwyn eu helpu yn ôl i waith ar rai unigolion a allai fod mewn mwy o berygl o galedi ariannol a dibynnu ar gymorth ariannol.

**Tai o Ansawdd Gwael / Digartrefedd**

- Gall amodau tai ddylanwadu ar ein hiechyd corfforol a chael dylanwad negyddol ar ein hiechyd a'n lles meddyliol. Mae plant sy'n byw mewn cartrefi gorlawn yn fwy tebygol o fod dan straen, yn orbryderus ac yn isel eu hysbryd, o dangyflawni (yn addysgol ac yn gymdeithasol) a bod ag iechyd corfforol gwaeth. Cartref diogel, sefydlog yw'r conglfaen mae unigolion a theuluoedd yn adeiladu gwell ansawdd bywyd arno, yn cael gafael ar wasanaethau sydd eu hangen arnynt ac yn cael mwy o annibyniaeth. Mae bod yn ddigartref yn cael effaith negyddol ar iechyd pobl ac yn ei gwneud yn anodd cael gafael ar wasanaethau cymorth ac yn cynyddu'r risg o argyfwng.

**Dementia**

- Mae mynychder dementia penodol i henaint yn gostwng ac mae corff cynyddol o dystiolaeth yn cefnogi'r rhagosodiad o ffactorau risg y gellir eu haddasu ar gyfer dementia ar draws pob grŵp oedran. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau addysg, pwysedd gwaed uchel, nam ar y clyw, smygu, gordewdra, iselder ysbryd, anweithgarwch corfforol, diabetes, cyswllt cymdeithasol isel, yfed alcohol, anaf trawmatig i'r ymennydd a llygredd aer. Mae'r potensial ar gyfer atal/oedi yn uchel, yn enwedig pan fydd ffocws ar gadw'n wybyddol, yn gorfforol ac yn gymdeithasol weithgar yng nghanol ac yn ddiweddarach mewn bywyd a phan mae cyfleoedd i gyfeirio at ymyrraeth gynnar yn dilyn diagnosis (i bobl a'u gofalwyr) yn gwella bob blwyddyn.

**Iechyd Corfforol Gwael**

- Mae unigolion y nodwyd eu bod mewn iechyd corfforol gwael fel arfer yn dangos cyflyrau iechyd fel diabetes, asthma, arthritis a chlefyd y galon, a allai fod wedi cael eu hachosi gan ffactorau ymddygiadol fel smygu, yfed, defnyddio cyffuriau, diffyg ymarfer corff a diet gwael. Gall iechyd corfforol gwael arwain at risg uwch o ddatblygu problemau iechyd meddwl. Trwy weithio gyda phartneriaid, e.e. Iechyd, i nodi'r achosion hyn yn gynnar, a thrwy roi cyngor a gwybodaeth i unigolion ynghylch ystod o wasanaethau sydd ar gael iddynt trwy'r Canolfannau Lles ac allan yn y gymuned, bydd yn eu galluogi i reoli eu hiechyd eu hunain yn well, a fydd yn atal problemau iechyd corfforol rhag datblygu.

**Esgeuluso Plant**

- Mae esgeuluso plant yn fath o gamdriniaeth, y mae ei ganlyniadau yn amddifadu plentyn o'i anghenion sylfaenol a gall gynnwys y methiant i ddarparu goruchwyliaeth ddigonol, gofal iechyd, dillad, neu dai, yn ogystal ag anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol, addysgol a diogelwch eraill. Trwy ddiogelu a chynnig cymorth i rieni a theuluoedd trwy wasanaethau ataliol fel cymorth magu plant, cyllidebu a rheoli ymddygiad yn bositif, gall eu galluogi i ddiwallu anghenion eu plant eu hunain yn well.

Pwrpas y Cynllun Gweithredu canlynol yw amlinellu'n glir yr hyn sy'n ofynnol dros y tair blynedd nesaf (a nodi beth sy'n debygol yn y blynyddoedd y tu hwnt i hynny) i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol er mwyn cwrdd â 5 amcan allweddol y Strategaeth ac, ochr yn ochr â'n partneriaid, ail-gydbwyso'r gofal a'r cymorth a roddir yng Ngheredigion.

| Blaenoriaeth 1: **HYBU IECHYD A LLES CADARNHAOL A CHEFNOGI POBL I HUNAN-GEFNOGI** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 1.1 **Model newydd ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth** | | | | | |
| 1.1.1 Gwella'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael ynghylch Taliadau Uniongyrchol a hybu recriwtio Cynorthwywyr Personol | 1<br>2<br>3<br>4 | Teimlo'n ynysig<br>Annibyniaeth<br>Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth,<br>Iechyd meddwl,<br>Camddefnyddio sylweddau,<br>Dementia | Datblygu gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol sy'n rhoi ystod o wybodaeth, mewn fformatau hygyrch a fydd yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i ystyried dulliau gweithredu creadigol a grymusol i gefnogi eu lles gyda llai o ddibyniaeth ar wasanaethau arbenigol a rhoi cyfleoedd i recriwtio cynorthwywyr personol. | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| 1.1.2 Sefydlu gwasanaeth cyngor a chymorth ariannol mewnol | 1<br>2<br>3<br>5 | Pryderon ariannol<br>Tai o Ansawdd Gwael,<br>Annibyniaeth | Rhoi gwybodaeth a chyngor i deuluoedd ac unigolion y gwasanaeth a fydd yn caniatáu iddynt reoli eu harian ac atal caledi ariannol gan gynnwys anawsterau o ran tai. Cysylltu hyn â strategaeth y Ganolfan Lles, datblygu a chynllunio'r gwasanaeth | Cyllid i weithio gyda'r Pyrth i gytuno ar ddull gweithredu | Blwyddyn 2 |
| 1.1.3 Mae dull gweithredu cydgysylltiedig o ran Cyngor a Chymorth Gwybodaeth trwy ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth am yr holl wasanaethau; hyrwyddo gwasanaethau presennol | 1<br>2<br>3<br>4 | Pob un | Gwybodaeth glir, hygyrch a chyfredol am yr ystod o wasanaethau a chymorth yng Ngheredigion a fydd yn cefnogi pobl i helpu eu hunain a gwybod sut i gael gafael ar gymorth | Grŵp dan arweiniad TGCh gyda staff o'r Pyrth. | Blwyddyn 1 |
| 1.1.4 Sefydlu strategaeth farchnata/gyfathrebu i hyrwyddo cynigion a gwybodaeth ataliol am | 1<br>2<br>3<br>5 | Pob un | Rhoi arwydd i Gorfforaethol ynghylch y cymorth sydd ei hangen i godi ymwybyddiaeth o ffyrdd newydd o weithio a gwasanaethau newydd a gynigir a sut i gael gafael arnynt | I'w benderfynu - Angen cysylltu â 1.1.3 | Blwyddyn 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan ein partneriaid | | | | | |
| 1.1.5 Datblygu Clic fel y pwynt cyswllt cyntaf a gwasanaeth gwybodaeth | 1<br>2<br>3 | Pob un | Bydd yn hyrwyddo mynediad sengl a hawdd at wasanaeth gwybodaeth ac atgyfeirio ac yn lleihau'r baich ar Weithwyr Cymdeithasol i roi'r wybodaeth hon | Cyswllt Cwsmeriaid (Clic) | Blwyddyn 1 |
| **Cam Gweithredu** | **Cyfeiriad allanol** | **Maes/meysydd angen** | **Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth** | **Porth Arweiniol** | **Blwyddyn** |
| 1.1.6 Datblygu gwasanaethau cyffredinol â ffocws a fydd ar gael yng nghanolfan lles Llanbedr Pont Steffan | 1<br>2<br>3 | Pob un (Byddai angen pennu ffocws gwasanaeth y ganolfan) | • Gwella lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y trigolion yn ardal Llanbedr Pont Steffan/Canol y Sir<br>• Gwella'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd agored i niwed sy'n wynebu heriau<br>• Datblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Diogelu a meithrin y rhai mwyaf agored i niwed<br>• Lleihau'r baich ar wasanaethau statudol | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 1/2 |
| 1.1.7 Datblygu gwasanaethau cyffredinol â ffocws a fydd ar gael yng nghanolfan lles Plascrug | 1<br>2<br>3 | Pob un | • Gwella lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y trigolion yn ardal Aberystwyth/Gogledd y Sir<br>• Gwella'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd agored i niwed sy'n wynebu heriau<br>• Datblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Diogelu a meithrin y rhai mwyaf agored i niwed<br>• Lleihau'r baich ar wasanaethau statudol | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 2/3 |
| 1.1.8 Datblygu gwasanaethau cyffredinol â ffocws a fydd ar gael yng nghanolfan lles Aberteifi | 1<br>2<br>3 | Pob un | • Gwella lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y trigolion yn ardal Aberteifi/De'r Sir<br>• Gwella'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd agored i niwed sy'n wynebu heriau | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 3/4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Datblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Diogelu a meithrin y rhai mwyaf agored i niwed<br>• Lleihau'r baich ar wasanaethau statudol | | |

| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1.9 Datblygu gwasanaethau cyffredinol â ffocws a fydd ar gael mewn trefi eraill trwy ddarpariaeth dros dro a thrwy'r ddarpariaeth allgymorth symudol | 1<br>2<br>3 | Pob un | • I wella lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y trigolion yn yr ardaloedd 'anodd eu cyrraedd / gwledig yng Ngheredigion<br>• Gwella'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd agored i niwed sy'n wynebu heriau<br>• Datblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Diogelu a meithrin y rhai mwyaf agored i niwed<br>• Lleihau'r baich ar wasanaethau statudol | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 4+ |
| 1.1.11 Gwella Cyngor a Chymorth Gwybodaeth ar dechnoleg gynorthwyol, cymhorthion a theclynnau sydd ar gael (Hyrwyddo'r rhaglen "Cysylltu") | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 | Teimlo'n ynysig<br>Eiddilwch<br>Annibyniaeth<br>Tai<br>Dementia<br>Iechyd gorfforol gwael | Darparu cyfleoedd hunangymorth ar gyfer cymorth cynnar yng nghartref y person a chymunedau lleol er mwyn grymuso unigolion i gynnal annibyniaeth a chydnerthedd unigol | Porth Gofal | Blwyddyn 2 |
| 1.2 **Agwedd haenog at atal.** | | | | | |
| 1.2.1 Datblygu Cynllun Lles ac Atal | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 | Pob un | Datblygu Cynllun Lles ac Atal i alinio â'r Strategaeth Gydol Oed a Lles, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd y cynllun yn amlinellu'r blaenoriaethau allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r weledigaeth. Bydd y cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth, data ac ar adborth a gafwyd trwy ymgysylltu â'r gymuned.<br>Bydd y cynllun yn rhoi camau manwl i ni i lywio newid a gwelliant a chefnogi datblygiad gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar. | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 1 |
| 1.2.2 Cytuno ar Gynllun Lles | 1<br>2<br>3 | Pob un | Cadarnhau beth fydd yr amserlenni ar gyfer cytuno ar y Cynllun Lles ac Atal trwy ein prosesau democrataidd mewnol. | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 4<br>5 | | | | |

| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.2.3 Datblygu Gwasanaeth Synhwyraidd Gydol Oed a fydd yn cefnogi'r anghenion ar draws y continwwm ar gyfer ystod o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys gwiriadau iechyd Atal ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal a'r gymuned. | 1<br>3<br>4 | Teimlo'n ynysig<br>Eiddilwch<br>Annibyniaeth<br>Dementia<br>Iechyd corfforol gwael | Cefnogi unigolion â nam ar eu synhwyrau i fyw'n annibynnol a byw bywydau cyflawn. | Porth Gofal - | Blwyddyn 2 |
| 1.3 Ystod gadarn o gefnogaeth i Ofalwyr.<br><br>Nid oes angen cymryd dim camau penodol gan fod y gwasanaeth Gofalwyr yn rhoi cymorth effeithiol a chadarn ar hyn o bryd. Angen sicrhau bod ffocws yn cael ei gadw ar sut mae'r strategaeth yn effeithio ar y gwasanaeth hwn | | | | | |
| 1.4 Gwneud y mwyaf o botensial asedau cymunedol. | | | | | |
| 1.4.1 Adolygu rolau Cysylltwyr Cymunedol – pennu rolau a chyfrifoldebau. Ffocws posib ar allgymorth i frwydro yn erbyn Ynysigrwydd, annibyniaeth, hyrwyddo Cynghorau Cymuned, clybiau a sefydliadau ym mhob cymuned leol. Cydlynu gyda CAVO a gwirfoddolwyr | 1<br>2<br>3 | Teimlo'n ynysig, Annibyniaeth, Addysg Cyflogaeth Hyfforddiant | Cynnal adolygiad annibynnol o rolau Cysylltwyr Cymunedol (Allgymorth) er mwyn nodi bylchau yn seilwaith y gymuned ac i nodi cymhlethdod cynyddol anghenion pobl (Dwy her allweddol sy'n wynebu ein gwasanaethau).<br><br>Bydd yr adolygiad yn rhoi argymhellion cynhwysfawr i lywio newid a gwelliant a bydd yn cefnogi datblygiad y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 1 |
| 1.4.2 O safbwynt diogelwch cymunedol, gwella o ran atal troseddu ac ymddygiadau peryglus trwy brosiectau | 1<br>2<br>3<br>5 | Pob un | Gweithio gyda phartneriaid (y sector statudol a'r 3ydd sector) i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o nodweddion allweddol 'beth sy'n gweithio' o ran ymyriadau cynnar. | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| allgymorth, gan weithio'n agos gyda sefydliadau statudol / partner/3ydd sector | | | Datblygu prosiectau allgymorth wedi'u targedu er mwyn atal neu leihau troseddau ieuenctid, troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol | | |
| Cam Gweithredu | Cyfeiri ad allano l | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddy n |
| 1.4.3 Asesiad o Anghenion – Datblygu rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd a fydd yn pennu anghenion. Gwella'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 | Pob un | Ail-ganolbwyntio buddsoddiad a datblygu gwasanaeth | Tîm ymgysylltu i weithio gyda'r Pyrth i gytuno ar ddull gweithredu | Blwyddy n 2 |
| 1.4.4 Adolygu sut rydym yn gweithio gyda'r trydydd sector i fynd i'r afael â phroblemau o fewn y strategaeth (teimlo'n ynysig, eiddilwch, annibyniaeth ac ati a hybu cyfranogiad y gymuned | 1<br>3 | Annibyniaeth<br>Teimlo'n ynysig<br>Eiddilwch<br>Dementia | Cynnal adolygiad / dadansoddiad o gontractau trydydd parti i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn 'addas i'r diben' ac yn cynnig y gwerth gorau ac yn cwrdd â phryderon cynyddol yn y sir e.e. teimlo'n ynysig, eiddilwch ac ati | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddy n 2/3 |

| Blaenoriaeth 2: **CRYFHAU TEULUOEDD FEL BOD PLANT A PHOBL IFANC YN AROS GYDA'U TEULU** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 2.1 **Cyflwyno dull gweithredu teulu cyfan gydag ystod eang o wahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol i weithio gyda theulu. Mae'r dull gweithredu partneriaeth cydgysylltiedig hwn yn helpu i adeiladu ar gryfderau teulu a sicrhau newid cynaliadwy mewn meysydd pryder a nodwyd i'r teulu cyfan.** | | | | | |
| 2.1.1 Adolygu'r dull gweithredu presennol o ymdrin â'r Tîm o Amgylch y Teulu a'n dull gweithredu "teulu cyfan" i bennu dull gweithredu Gydol Oed newydd o ddarparu Ymyrraeth Gynnar ac Atal | 1<br>2<br>4<br>5 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Diffino'n glir ystyr y 'Dull Gweithredu Teulu Cyfan'. Adolygu model cyfredol y Tîm o Amgylch y Teulu a gwneud argymhellion ar gyfer newid. Dylai'r dull gweithredu 'Teulu Cyfan' fod yn strategaeth a arweinir gan deulu sy'n rhoi'r offer sydd eu hangen ar oedolion a phlant i osod eu nodau eu hunain, gwneud eu penderfyniadau eu hunain a chreu cynlluniau er mwyn sicrhau newid a sefydlogrwydd hidymor. | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 1 |
| 2.1.2 Mabwysiadu ymhellach Gynadledda Grŵp Teulu ar draws y rhaglen (cyfnodau cynnar/atal) | 1<br>2<br>5 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Hwyluso cymorth a chyngor cynnar i deuluoedd a allai fod angen cefnogaeth i fynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg ynghylch eu gallu i ymdopi â heriau a chynnal diogelwch a lles aelodau penodol o'r teulu. Hybu cydnerthedd teuluol ac unigol gyda llai o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| 2.1.3 Gwella'r gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ac Ar Ffiniau Gofal i roi cymorth ataliol dwys i blant sydd ar fin dod i ofal | 2<br>4<br>5 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Lleihau'r risg y bydd plant yn dod i ofal awdurdod lleol pryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 2.1.4 Datblygu Lleihad Diogel Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal | 2<br>4<br>5 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Sicrhau trafodaethau ar y cyd ar draws y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant a gyda gwasanaethau perthnasol eraill wrth gytuno ar flaenoriaethau a chamau gweithredu strategol allweddol wrth fynd i'r afael â lleihau plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel. | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1.5 Cymeradwyo a gweithredu Lleihad Diogel y Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal | 2<br>4<br>5 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Sicrhau cytundeb corfforaethol a chytundeb y Cyngor a chefnogaeth i gamau gweithredu a blaenoriaethau strategol allweddol er mwyn lleihau plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |

| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1.6 Adolygu'r cymorth sydd ar gael i warcheidwaid arbennig a gofalwyr sy'n berthnasau fel rhan o ddatblygiad Strategaeth Lleihau'n Ddiogel Blant sy'n derbyn gofal | 2<br>4<br>5 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Cefnogi plant i gael gofal gan eu teuluoedd estynedig a'u ffrindiau lle bynnag y mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |
| 2.2 **Gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael ag achosion anawsterau ac agoredrwydd i niwed teuluoedd (e.e. profiadau niweidiol yn ystod plentyndod).** | | | | | |
| 2.2.1 Rhoi gwell cymorth magu plant ar draws y continwwm ac o ganlyniad i atgyfeiriadau o bob ffynhonnell - Cymorth a Mentora, Cymorth wedi'i Dargedu | 2<br>3 | Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau<br>Pryderon Ariannol<br>Digartrefedd Tai o Ansawdd Gwael | Adolygu'r cymorth magu plant sydd ar gael a llywio datblygiad cymorth cyffredinol ac wedi'i dargedu o ran magu plant | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 2.2.2 Sefydlu darpariaeth graidd gynhwysol ar gyfer gweithgareddau gwyliau a chwarae (gan gynnwys darparu bwyd) gan gynnwys ar ôl ysgol a phenwythnosau. | 2<br>5 | Esgeuluso Plant | Cyflwyno rhaglen wedi'i thargedu o weithgareddau strwythuredig / cyfleoedd chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed yn ystod gwyliau, penwythnosau ac ar ôl ysgol i gefnogi eu lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol (a ariennir gan grant eleni - ond bydd angen nodi cyllid y dyfodol | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 2 |
| 2.2.4 Cryfhau'r cymorth ar gyfer ail-uno plant a theuluoedd yn dilyn lleoliadau mewn gofal pryd bynnag y mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny fel rhan | 2<br>5 | Esgeuluso Plant | Rhoi cymorth i blant ddychwelyd i ofal eu teuluoedd pryd bynnag y mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| o'r Strategaeth Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | |

| Blaenoriaeth 3: **GALLUOGI UNIGOLION I FYW'N ANNIBYNNOL YN EU CYMUNED EU HUNAIN** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 3.1 **Tîm Amlddisgyblaethol a model cydlynu allweddol o weithio sy'n dwyn ynghyd ystod o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol eraill sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol trwy roi'r gofal cywir gartref neu yn y gymuned.** | | | | | |
| 3.1.1 Datblygiad pellach tîm Brysbennu Porth Gofal i fodel Gydol Oed (gan gynnwys sefydlu canolbwynt Porth Gofal yng Nghanolfan Byw'n Annibynnol Ceredigion Felin-fach) | 3<br>4 | Pob un | Brysbennu atgyfeiriadau mewn ffordd integredig gyda chyfleoedd i gyfeirio ac atgyfeirio ymlaen at wasanaethau cymorth cynnar ac atal yn y gymuned ynghyd â gwasanaethau tymor byr wedi'u targedu i ddiwallu anghenion cymorth a nodwyd ac felly lleihau'r angen am ofal a chymorth hirdymor arbenigol | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| Archwilio a datblygu'r dull gweithredu cydlynydd allweddol fel model Gydol Oed | 3<br>4 | Pob un | Archwilio a fyddai rôl 'Cydlynydd Allweddol' o fewn y Model Gydol Oed a Lles yn briodol. Y cydlynydd allweddol fyddai'r unigolyn sy'n gweithio mewn rôl gefnogol gydag unigolion / teuluoedd. Gallent weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer yr unigolyn / teulu gan eu cefnogi i gydlynu eu gofal ar draws iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, tai, pryderon ariannol ac ati. Dros amser, gallai'r Cydlynydd Allweddol rymuso unigolion / teuluoedd trwy roi cymorth, adnoddau a gwybodaeth iddynt i ddiwallu eu hanghenion unigol | Porth Cymorth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 3.2 **Yr ystod o ddarpariaeth offer a'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol.** | | | | | |
| 3.2.1 Adolygu'r gwasanaeth mewnol technoleg weithredol presennol: cwmpasu posibiliadau canolbwynt/siop ar gyfer modelau darparu Gydol Oed | 3 | Annibyniaeth<br>Eiddilwch<br>Dementia | Datblygu strategaeth dechnoleg gynorthwyol ac offer i lywio'r flaenraglen waith i gynyddu hygyrchedd a darpariaeth i'r cyhoedd yn ogystal â'r rhai a atgyfeirir trwy wasanaethau statudol. | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.2.2 Datblygu modelau darparu'r dyfodol ar gyfer technoleg ac offer cynorthwyol ar gyfer model Gydol Oed | 3 | Annibyniaeth<br>Eiddilwch<br>Dementia | Bydd yn rhoi cyfle hygyrch i unigolion ddod o hyd i gymhorthion ac offer priodol i gynnal annibyniaeth a lles a mwy o gydnerthedd a dibyniaeth unigolion ar wasanaethau statudol | Porth Gofal | Blwyddyn 2 |
| 3.3 **Ystod o opsiynau gwasanaeth sy'n cynnwys adsefydlu, ail-alluogi, taliadau uniongyrchol, gwasanaethau dydd a darpariaeth gofal cartref well.** | | | | | |
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 3.3.1 Datblygu model/au newydd ar gyfer darparu Taliadau Uniongyrchol | 3<br>4 | Annibyniaeth | Grymuso unigolion i reoli eu hanghenion cymorth eu hunain yn greadigol ac yn annibynnol gyda llai o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol i ddiwallu anghenion | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| 3.3.2 Datblygu model newydd gydol oed ar gyfer ail-alluogi a gofal cartref / gwneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau cyfredol | 3 | Annibyniaeth<br>Dementia | Darparu gwasanaeth ymatebol sy'n gallu ateb y galw cynyddol am wasanaethau gofal yn y gymuned wrth ganolbwyntio ar alluogi ac adfer a hybu annibyniaeth a chydnerthedd unigolion | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| 3.3.3 Adolygu gwasanaeth darparu prydau bwyd yn y cartref gan gynnwys cwmpasu'r ddarpariaeth gymunedol | 3 | Annibyniaeth<br>Eiddilwch | Hybu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon wrth gefnogi annibyniaeth pobl | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |
| 3.3.4 Datblygu Rhaglen Lles ar gyfer cyflyrau a gweithgareddau cronig | 3 | Annibyniaeth<br>Eiddilwch | Gwasanaethau rhagweithiol i bobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig; dewisiadau sy'n cefnogi'r hyn y gallant ei wneud nid yr hyn na allant ei wneud | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 2 |
| 3.4 **Dull gweithredu cyfannol o gefnogi pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo i fod yn oedolion.** | | | | | |
| 3.4.1 Adolygu a datblygu cymorth/hyfforddiant sgiliau bywyd gofynnol mewn meysydd fel tai, cyllid a chyflogaeth | 3 | Annibyniaeth<br>Pryderon Ariannol<br>Teimlo'n ynysig | Deall y gofynion ar gyfer sgiliau bywyd gydag ystod o grwpiau/defnyddwyr gwasanaethau a chyfleoedd i ddiwallu'r anghenion hynny | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.4.2 Cymorth â ffocws i Bobl sy'n Gadael Gofal a phobl ifanc ag anableddau dysgu sydd â phrofiad gwaith/prentisiaeth | 3 | Annibyniaeth Addysg Cyflogaeth Hyfforddiant | Cefnogi cyfleoedd o ran cyflogaeth i bobl agored i niwed | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |
| 3.4.3 Datblygu cyfleoedd ar gyfer Mentrau Cydweithredol/Presgripsiynu Cymdeithasol/Cymdeithasol | 3 | Annibyniaeth Addysg Cyflogaeth Hyfforddiant | Cynnal adolygiad i ddatblygu gwell dealltwriaeth o<br>• beth yw ystyr Mentrau Cydweithredol/Presgripsiynu Cymdeithasol/Cymdeithasol<br>• y rhesymau a'r angen i ddatblygu cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol<br>• sut y gallai hyn weithio yng Ngheredigion<br>• sut y bydd hyn yn effeithio ar drigolion Ceredigion ac yn fuddiol iddynt | Porth Cymorth Cynnar | Blwyddyn 4+ |
| **3.5 Dull gweithredu system gyfan o gynorthwyo pobl i fyw gydag anhwylderau hirdymor (gyda ffocws penodol ar gymorth dementia).** | | | | | |
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 3.5.1 Sefydlu'r model ar gyfer Cydlynu Dementia (mapio a bylchu cylch gwaith / rôl / gwasanaeth ynghyd â chanlyniadau a ddymunir) | 3 | Dementia Teimlo'n ynysig | Pennu model er mwyn gweithredu cyfeiriad strategaethau cenedlaethol / rhanbarthol mewn lleoliad lleol. | Porth Cynnal (Strategaeth/ Canlyniadau Targed /Cynllun gweithredu) | Blwyddyn 1/2 |
| 3.5.2 Datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Dementia Ceredigion | 3 | Dementia | Gweithredu'r strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar lefel leol gan ystyried yr ystod o gefnogaeth ar gyfer cymorth a gofal dementia | Porth Cynnal (Strategaeth/ Canlyniadau Targed /Cynllun gweithredu) | Blwyddyn 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.5.3 Sefydlu perthnasoedd â darparwyr i ddatblygu cyfleusterau, yn enwedig mewn gofal dementia / gofal nyrsio pen-uchaf. | 3 | Dementia | Darparu atebion lleol a darpariaeth ar gyfer dementia ar draws y continwwm angen | I'w bennu gyda chymorth y Gwasanaethau Corfforaethol | Blwyddyn 2 |
| 3.5.4 Nodi rhaglen rheoli cyflyrau hirdymor, a ddarperir trwy'r Canolfannau Lles mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd. | 3 | Iechyd Corfforol Gwael<br>Eiddilwch<br>Annibyniaeth | Darparu gwasanaethau lleol a phwyntiau mynediad cymorth i ddinasyddion sydd ag anhwylderau hirdymor nad oes angen cynllun gofal a chymorth arnynt | Porth Gofal | Blwyddyn 3 |

| Blaenoriaeth 4: **DARPARU DULLIAU CYMESUR O DRIN GOFAL A CHYMORTH WEDI'I REOLI** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 4.1 **Cynnig gofal canolraddol cydgysylltiedig helaeth.** | | | | | |
| 4.1.1 Cadarnhau pa ymyrraeth tymor byr (ee Gofal Cartref a Galluogi yn y Cartref) a gynigir gan Borth Gofal ar draws model Gydol Oed (8 i 10 wythnos) | 4 | Eiddilwch<br>Annibyniaeth<br>Dementia<br>Iechyd Corfforol<br>Gwael | Darparu dull cyfannol o drin cymorth yn y gymuned gyda'r ffocws cychwynnol ar gymorth, galluogi ac adferiad tymor byr wedi'i dargedu, gan leihau'r angen am becynnau gofal hirdymor | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| 4.2 **Dull amserol sy'n canolbwyntio ar adferiad o drin gofal a chymorth.** | | | | | |
| 4.2.1 Gwerthuso Rhaglen 3 - Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn integreiddio â Gofal a Galluogi yn y Cartref | 4 | Eiddilwch<br>Annibyniaeth<br>Dementia<br>Iechyd Corfforol<br>Gwael | Galluogi datblygiad dull cyfannol o drin cymorth yn y gymuned gyda'r ffocws cychwynnol ar gymorth, galluogi ac adferiad tymor byr wedi'i dargedu, gan leihau'r angen am becynnau gofal hirdymor | Porth Gofal | Blwyddyn 1 |
| 4.2.2 Adolygiad o'r ddarpariaeth o allgymorth gydol oed i bobl ag anawsterau iechyd meddwl er mwyn cynorthwyo adferiad | 3<br>4 | Iechyd Meddwl | Llywio datblygiad ymyrraeth gynnar gydol oed a chymorth ataliol i bobl sy'n profi anawsterau iechyd meddwl. | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 4.2.3 Adolygiad o'r ddarpariaeth o allgymorth gydol oed i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau | 4<br>3 | Camddefnyddio sylweddau<br>Iechyd Meddwl | Llywio datblygiad ymyrraeth gynnar gydol oed a chymorth ataliol i bobl sy'n cael anawsterau o ran camddefnyddio sylweddau | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 4.2.4 Cryfhau darpariaeth cymorth i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ag anawsterau iechyd meddwl | 4<br>3 | Iechyd Meddwl | Hybu lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |

| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.2.5 Adolygu'r ystod o ddarpariaeth seibiant ar gyfer Gydol Oed, diwrnod / rhan o ddiwrnod / Preswyl / 3ydd Sector er mwyn datblygu cynllun strategol ar gyfer darpariaeth y dyfodol | 4<br>3<br>2 | Eiddilwch<br>Annibyniaeth<br>Dementia<br>Iechyd Corfforol Gwael<br>Iechyd Meddwl | Er mwyn sicrhau bod ystod o gymorth seibiant priodol ar gael i gynnal annibyniaeth a chymorth i ofalwyr, gan leihau'r angen am wasanaethau gofal a chymorth tymor hwy | Porth Gofal | Blwyddyn 2 |
| 4.3 **Ystod o opsiynau llety a all ddiwallu anghenion tymor byr, tymor canolig a hirdymor am ofal a chymorth.** | | | | | |
| 4.3.1 Cytundeb â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer darparu ystod o lety gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer llety mewn argyfwng | 4<br>2 | Digartrefedd Tai o ansawdd gwael<br>Esgeuluso Plant<br>Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau | Argaeledd ystod o opsiynau o ran llety a thai i gynorthwyo unigolion a theuluoedd i fyw'n dda a chynnal lles gyda llai o ddibyniaeth ar wasanaethau arbenigol | Porth Gofal | Blwyddyn 1 i 3 |
| 4.3.2 Adolygu darpariaeth tai a llety a gofal i bobl ag Anaf i'r Ymennydd i lywio cefnogaeth y dyfodol | 4 | Iechyd Meddwl<br>Camddefnyddio Sylweddau | Adolygu'r ddarpariaeth i lywio cryfhau cymorth i bobl sydd wedi cael anaf i'r ymennydd. | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 i 3 |
| 4.3.3 Gwella darpariaeth llety ar gyfer tai â chymorth i grwpiau agored i niwed, yn enwedig pobl sy'n profi anawsterau Iechyd Meddwl, anawsterau Camddefnyddio Sylweddau, Dysgu | 4<br>2 | Iechyd Meddwl<br>Cam-drin Domestig<br>Camddefnyddio Sylweddau<br>Digartrefedd Tai o ansawdd gwael<br>Esgeuluso Plant | Hybu cyfleoedd ar gyfer tai/llety i grwpiau agored i niwed | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |

| Blaenoriaeth 5: **DIOGELU UNIGOLION A'U CADW'N DDIOGEL RHAG CAMDRINIAETH, NIWED AC ESGEULUSTOD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 5.1 **Datblygu trefniadau diogelu cydgysylltiedig a chymesur ar gyfer oedolion a phlant – o fewn y Cyngor a chydag asiantaethau partner.** | | | | | |
| 5.1.1 Cynyddu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau mwy lleol a rhanbarthol i blant a theuluoedd trwy ddatblygu'r cyfleuster Rhiant a Baban a chymryd rhan yn natblygiad y Cynllun Llety Diogel i Blant ag Anghenion Cymhleth | 5<br>4 | Esgeuluso Plant | Cynyddu mwy o ddewis o ran lleoliadau lleol a rhanbarthol i blant a theuluoedd a sicrhau canlyniadau o ansawdd gwell. | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 -3 |
| 5.1.2 Datblygu tîm diogelu gydol oed o fewn Cyngor Sir Ceredigion a fydd yn alinio cyn belled â phosibl y trefniadau ar gyfer oedolion a phlant wrth sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. | 5 | Pob un | Datblygu trefniadau diogelu effeithiol o ran gydol oed ar draws y model sydd hefyd yn ystyried gofynion penodol i oedran | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 5.1.3 Datblygu trothwy diogelu a phrotocolau'r llwybr ar draws y model | 5 | Pob un | Sefydlu protocolau a throthwyon angenrheidiol i gefnogi gweithio diogel ac effeithiol ar draws y model | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 5.2 **Canolbwyntio'n benodol ar achosion ac effeithiau cam-drin domestig (e.e. camddefnyddio sylweddau / iechyd meddwl / pwysau ariannol).** | | | | | |
| 5.2.1 Adolygu'r cymorth lleol a rhanbarthol sydd ar gael i | 5 | Cam-drin Domestig | Sicrhau mynediad effeithiol at wasanaethau trwodd i bobl a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ddioddefwyr cam-drin domestig i hybu mynediad effeithiol at wasanaethau. | | | | | |
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 5.2.2 Cryfhau cymorth gydag ymwybyddiaeth a gwybodaeth o ran diogelu ar strategaethau cadw'n ddiogel ar gyfer pobl sydd mewn perygl o niwed | 5 | Cam-drin Domestig Esgeuluso Plant | Rhoi cymorth i leihau'r risg o ailatgyfeiriadau diogelu a gwella ymwybyddiaeth pobl o sut y gallant gadw'n ddiogel rhag niwed | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |
| 5.2.3 Datblygu ymatebion ymyrraeth gynnar ac ymatebion ataliol i adroddiadau lefel isel nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriadau diogelu i blant ac oedolion | 5 | Cam-drin Domestig Esgeuluso Plant | Sicrhau ymyrraeth gynnar ac atal i bobl a theuluoedd sydd mewn perygl o brofi pryderon diogelu | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |
| 5.2.4 Hybu mynediad i'r rhaglen Cyflawnwr ranbarthol a chymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig | 5 | Cam-drin Domestig | Cynyddu cyfleoedd i bobl fynd i'r afael ag ymddygiad treisgar a difrïol a lleihau nifer yr achosion o gam-drin domestig | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |
| 5.2.5 Parhau i gyflwyno fframwaith hyfforddi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 5 | Cam-drin Domestig | Cynyddu ymwybyddiaeth a gallu i ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig. | Porth Cynnal | Blwyddyn 2 |

| 5.3 **Arwain ar raglen benodedig i sicrhau bod diogelu yn cael ei fabwysiadu fel cyfrifoldeb pawb.** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Cyfeiriad allanol | Maes/meysydd angen | Beth fydd yn ei gyflawni/effaith ar ail-gydbwyso gofal a chymorth | Porth Arweiniol | Blwyddyn |
| 5.3.1 Cyflwyno hyfforddiant polisi a gweithdrefn diogelu i'r holl staff o fewn fframwaith y cytunwyd arno | 5 | Cam-drin Domestig Esgeuluso Plant | Cynyddu ymwybyddiaeth a gallu i ymateb yn effeithiol i bryderon diogelu | Porth Cynnal | Blwyddyn 1 |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Model Gydol Oed a Llesiant



Strategaeth | 2021 - 2027

# Cyflwyniad

Croeso i Strategaeth Gydol Oed a Llesiant Cyngor Sir Ceredigion.

Mae’r strategaeth hon yn rhan allweddol o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, sef y ddogfen sy’n dangos prif flaenoriaethau’r Cyngor. Nod y blaenoriaethau yw galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.

Mae rhoi cymorth a chefnogaeth i’r holl oedrannau ac anghenion gwahanol yn her sylweddol i’r Cyngor gydag adnoddau cyfyngedig. Mae proffil y gymdeithas a demograffeg wedi newid cryn dipyn dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ynghyd â chynnydd yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy’n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae’r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny. Yn ogystal, mae lefelau diweithdra ynghyd â lefelau incwm isel wedi esgor ar fwyfwy o anawsterau i bobl gael mynediad at dai diogel, fforddiadwy.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Un o’r blaenoriaethau allweddol yn y strategaeth gorfforaethol yw **galluogi gwytnwch mewn unigolion a theuluoedd**. O fewn y flaenoriaeth hon mae’r Cyngor yn dymuno sicrhau’r canlyniadau canlynol:

Dinasyddion o bob oed i gael gwell ansawdd bywyd

Gwell rhwydweithiau cymorth i deuluoedd a phobl mewn angen ledled y Sir

Gwell llesiant ac iechyd trwy ymyriadau effeithiol

Rhwydweithiau sefydledig o grwpiau cymunedol a gwirfoddol ledled y Sir i roi cefnogaeth ataliol strategol a thrwy hynny gynyddu gwytnwch cymunedol a gofal cymdeithasol cynaliadwy.

Gwell dewis o dai lleol ac ansawdd gwell iddynt.

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Mae'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar wella dyfodol pobl yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

## Bydd Ceredigion a'i dinasyddion...

**â phroffil cynaliadwy o ran oedran y boblogaeth**

**yn barod i wireddu eu potensial ym mywyd economaidd a chymdeithasol y Sir**

**yn cael rhagor o gyfleoedd ac yn cael eu hysbrydoli i ddatblygu sgiliau ymarferol, deallusol a chymdeithasol a fydd yn arwain at fywydau gweithgar ac iach.**

**yn parhau i fod yn gartref bywiog i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

Bydd

# pob dinesydd

yn cael mynediad at ystod o raglenni ac ymyriadau sy'n gysylltiedig ag iechyd ym mhob sector yn ein cymunedau, a thargedu'r rhai sydd mwyaf mewn perygl.

Mae’r **Strategaeth Gydol Oed a Llesiant** yn nodi’r **weledigaeth** a’r **dulliau** cysylltiedig a ddefnyddir i drawsffurfio sut y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Mae’r **strategaeth yn disgrifio’r daith** y bydd y Cyngor yn ei chymryd, ochr yn ochr â’i bartneriaid, i drawsnewid ei ffordd o weithio. Mae’n rhoi’r cyd-destun strategol ar gyfer comisiynu yn y dyfodol, darparu gwasanaethau gweithredol, rheoli gofal a’n rôl yn integreiddio gwasanaethau.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Mae'r strategaeth yn egluro sut y byddwn yn:

**rhoi**
y model gweithredu
Gydol Oed a Llesiant newydd
**ar waith**

**lleihau'r galw**
am ofal a chymorth a reolir a chanolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd eu hangen fwyaf

**cefnogi ein gweithlu**
i ddatblygu ffordd newydd o gefnogi unigolion yng Ngheredigion

**canolbwyntio**
ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol neu adennill yr annibyniaeth y maent ei eisiau ac yn ei werthfawrogi

**darparu gwasanaethau**
o fewn y gyllideb

**cydweithio gyda phartneriaid**
i ddarparu system iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol sy'n fwy cydgysylltiedig


Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Y weledigaeth

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog a chynaliadwy sy'n werth am arian ac sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach wrth hyrwyddo llesiant yn ein pobl a'n cymunedau

Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd. Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.




Cyngor Sir CEREDIGION County Council



# y Model Gydol Oed a Llesiant

**SSWBA** – dyma'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gosod cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol (gyda'u partneriaid) i ddatblygu ystod o gefnogaeth ataliol, i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl wrth ddarparu gwasanaeth, i sicrhau bod unigolion yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod ac i ddatblygu marchnadoedd gofal a chymorth.

**WFGA** – mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

**RISCA** - mae'r Ddeddf hon yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gosod ansawdd gwasanaethau a gwelliant wrth wraidd rheoleiddio. Mae'n cryfhau amddiffyniad i'r rhai sydd ei angen ac yn creu system reoleiddio sy'n canolbwyntio ar bobl sydd angen gofal a chymorth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

**Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion** – mae hon am geisio ailfywiogi'r economi leol a darparu amgylchedd llewyrchus, iach, diogel a fforddiadwy lle gall dinasyddion Ceredigion fyw a gweithio ynddo ac a fydd yn ceisio cadw pobl ifanc mewn swyddi â chyflogau da.

**Asesiad Anghenion Poblogaeth Gorllewin Cymru** – mae hwn yn rhoi dadansoddiad strategol lefel uchel o anghenion gofal a chymorth dinasyddion ledled Gorllewin Cymru ynghyd ag anghenion cefnogaeth i ofalwyr. Mae'n asesu i ba raddau y caiff yr anghenion hynny eu diwallu ar hyn o bryd ac yn nodi ymhle y mae angen gwella a datblygu ymhellach i sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth gywir ac yn gallu byw bywydau cyflawn.

**Asesiad o Lesiant Ceredigion** – mae hwn yn amlinellu sut mae llesiant yn edrych yn y Sir a sut mae trigolion a chymunedau Ceredigion eisiau i lesiant edrych yn y dyfodol. Mae'r asesiad yn archwilio materion allweddol sy'n cael effaith gadarnhaol ac/neu negyddol ar lesiant ac yn rhoi trosolwg a dealltwriaeth sylfaenol o natur a lefelau llesiant yng Ngheredigion.

**Y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth** – mae hwn yn bwriadu datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol a fydd yn ailgydbwyso gofal a chymorth. Bydd yn lleihau cymhlethdod ac yn sicrhau mai ansawdd yw penderfynydd allweddol llwyddiant yn y farchnad gofal cymdeithasol. Bydd ganddo ffocws cryf ar gryfhau a chefnogi'r gweithlu.

**SSWBA** – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**WFGA** – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**RISCA** – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# CEREDIGION

# NAWR AC YN Y DYFODOL

**Yn 2020 cyfanswm poblogaeth Ceredigion oedd**

**72,695**

**gan gynnwys 11,318 o fyfyrwyr.**

Yn ôl rhagamcanion poblogaeth cyfredol, bydd cyfanswm poblogaeth Gorllewin Cymru yn codi i 425,400 erbyn 2033, gyda chynnydd yn y rhai dros 65 oed o 88,200 yn 2013 i 127,700 erbyn 2033.

**Mae dros hanner (58.5%) poblogaeth Ceredigion yn siarad Cymraeg, cynnydd o 6% o'r flwyddyn yn dod i ben fis Medi 2009.**

Bydd y boblogaeth dros 65 oed sy'n byw yng Ngheredigion yn cynyddu **27%** erbyn 2039.

Mae **3,444** o sefydliadau trydydd sector gweithredol (sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 3,330)

Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau yng Ngheredigion yw 5% (sy'n is na chyfartaledd Cymru o 7.5%).

Mae tlodi plant yng Ngheredigion wedi cynyddu mwy na **3%** ers 2014.

**Erbyn 2033 bydd cyfran y boblogaeth sydd rhwng 0-14 oed yng Ngheredigion yn gostwng i 15% a bydd pobl ifanc 15-24 oed hefyd yn gostwng i 11%.**

Disgwylir cynnydd sylweddol yn nifer y bobl 65 oed a hŷn sydd ag anabledd dysgu o 395 yn 2021 i 463 yn 2035.

Mae gan Ceredigion nifer is o Blant sy'n derbyn Gofal na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion gofal a chymorth yn rhychwantu ystod eang – o'r cyffredinol trwy ymyrraeth gynnar, anghenion lluosog ac ymyrraeth adferol.

Mae'r rhanbarth yn denu lefelau uchel o fewnfudo ymysg pobl dros 65 oed. Y lefel ar gyfer Ceredigion yw cyfradd ymfudo o 29% gydag 85% o'r rhain dros 65 oed.

**Rhagwelir mai nifer y bobl 0-17 oed a fydd ag anabledd yn ôl diffiniadau y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yng Ngheredigion yn 2035 fydd 1006.**

**1381**

o bobl y gwyddys sydd wedi'u diagnosio â Dementia yn 2021, rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn codi i 2021 erbyn 2035.

Mae disgwyliad oes Ceredigion yn dda ar 80.5 oed i ddynion ac yn 84.1 oed i fenywod, y ddau ohonynt yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Cyd-destun Ceredigion – yr achos dros newid

- Galw sy'n cynyddu, cyflenwad sy'n lleihau (disgwyliad oes uchel)
- Nifer sy'n lleihau o blant a phobl ifanc (1-15 oed)
- Costau cynyddol yn y system
- System gymhleth i lywio drwyddi
- Yr angen am atebion integredig ar draws sectorau
- Tan-ddefnyddio ar asedau cymunedol
- Lefelau uchel o yfed alcohol
- Enillion cyfartalog isaf
- Nifer uchel o blant wedi'u haddysgu gartref yng Ngorllewin Cymru
- Cynnydd mewn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol mewn cymunedau gwledig a threfol
- Cost gynyddol llety
- Amodau tai o safon wael (yn effeithio ar les pobl hŷn)
- Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth o ran tai cysgodol
- Y boblogaeth ymddeol sy'n buddsoddi mewn hunanddatblygiad
- Mae llawer o bobl yn derbyn gofal a chymorth gan deuluoedd
- Argaeledd y gweithlu (niferoedd yn cymudo i mewn ac allan)
- Nifer uwch na'r cyffredin o sefydliadau'r trydydd sector
- Gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus ar gyfer cyflogaeth

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Llesiant wrth galon yr hyn a wnawn

Sicrhau hawliau
Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd (oedolion)

Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol

Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol (Plant)

Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Addysg, hyfforddiant a hamdden

Perthnasau personol, teuluol a domestig.

Y cyfraniad a wneir i gymdeithas

Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Yn gweithio (oedolion)

Addasrwydd llety preswyl

# DYMA'R HYN RYDYM YN BWRIADU EI GYFLAWNI

Dull ledled y Cyngor cyfan

- mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anawsterau a bregusrwydd pobl a'r rhesymau y maent yn dod i gysylltiad â'r gwasanaeth (e.e. profiadau niweidiol yn ystod plentyndod)

*"byddwn yn datrys problemau nid eu cadw dan reolaeth"*

Cydweithio cryf â phartneriaid

Cynyddu gwytnwch unigolion yn eu cymuned

Llai o ddyblygu adnoddau a chapasiti a gwneud y mwyaf o'r hyn sydd eisoes ar gael

Symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar yr unigolyn a'i heriau yn annibynnol ar bopeth arall

a symud tuag at ddull mwy cyfannol sy'n cefnogi'r unigolyn a'i rwydwaith (e.e. rhwydweithiau cymorth teulu a chymuned) yn ogystal â'r unigolyn

Llai o ddibyniaeth ar ofal a chymorth a reolir

Seilwaith ymyrryd ac atal sy'n gynnar ac yn gryf

- i gefnogi pobl i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder i fyw'n dda

Dulliau gweithredu poblogaeth gyfan

- i gefnogi pobl o bob oed a'u gofalwyr i reoli eu llesiant

Newid trawsnewidiol mewn diwylliant ac ymarfer

Dull o ddarparu gwasanaeth

- sy'n gweld pob elfen o'r Model Gydol Oed yn rhoi'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn gan ddefnyddio dull Tîm o Amgylch y Teulu / yr Oedolyn

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y **daith** i ailddiffinio gofal a chymorth yng Ngheredigion

## GWEITHGARWCH

**Cynnydd** mewn cefnogaeth gyffredinol ac ataliol

**Gostyngiad** mewn gofal a chymorth a reolir

## Y GYLLIDEB

**Cynnydd** yn y gyllideb a ddyrannwyd i Porth Cymorth Cynnar

**Gostyngiad** yn y gyllideb a ddyrannwyd i Porth Cynnal


## BYDD LLWYDDIANT YN EDRYCH FEL HYN

- Diwallu anghenion pobl yn y ffordd fwyaf amserol wrth eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau'r Cyngor
- Ailddyrannu adnoddau, a thystiolaeth i ddangos bod atal yn gweithio gan ein bod yn lleihau'r angen am ofal a chymorth a reolir
- Manteisio gymaint ag y bo modd ar rôl technoleg ar gyfer unigolion, staff a darparu gwasanaethau
- Gweithlu hynod fedrus, effeithiol ac ymroddedig
- Marchnad gref a pherthynas agos â darparwyr i'n helpu i gynllunio a chomisiynu yn effeithiol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y **weledigaeth** ar gyfer y Model Gydol Oed a Llesiant

- Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn.
- Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd.
- Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Sut y byddwn yn **cyflawni** ein gweledigaeth

- Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd. Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth rydym wedi datblygu model gweithredu Gydol Oed a Llesiant sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg iawn, i atal, lleihau neu ohirio'r angen am gefnogaeth barhaus, ac i gael pobl i aros yn annibynnol am gyn hired ag y bo modd a chryfhau eu gallu i aros yn eu cartref eu hunain yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- cefnogi'r rhai sydd dan anfantais a'r rhai sy'n wynebu heriau,
- datblygu ymhellach wasanaethau sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- diogelu a meithrin y rhai mwyaf agored i niwed,
- anelu at fod y safon meincnod ar gyfer rhagoriaeth ac arloesedd yng Nghymru a thu hwnt,
- uwchsgilio ein gweithlu i gydweithio i wella'r arweiniad a'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion.

Byddwn bob amser yn ystyried barn yr unigolion, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid, yn ogystal â gweithlu ehangach Ceredigion yn natblygiad ac esblygiad y model a byddwn bob amser yn ceisio bod yn:

- Hygyrch
- Cyfeillgar
- Arloesol
- Hawdd gwneud â ni
- Anfeirniadol
- Effeithiol
- Cefnogol
- Mewn pryd
- Effeithlon

Mae'r model Gydol Oed a Llesiant yn fwy na dim yn fodel gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau integredig trwy bob oed a thrwy daith y Cleient yn hytrach na thrwy strategaeth systemau neu broses.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# YR HYN A WNAWN...

**POBL**: Byddwn yn cydweithio ar draws timau, a chyda'r holl bartneriaid Iechyd, Trydydd Sector a phartneriaid allanol, i sicrhau gwell canlyniadau i'n holl Gleientiaid a'u teuluoedd; i roi'r help iawn ar yr amser iawn.

**RHEOLAETHAU**: Byddwn yn amddiffyn yr Awdurdod Lleol rhag Risg Gweithredol a byddwn yn anelu at wella proffil cyffredinol ein holl bartneriaid.

**Y BROSES**: Byddwn wrthi'n barhaus yn ceisio gwella, gan fodloni gofynion deddfwriaethol a statudol a defnyddio egwyddorion a methodolegau cydweithredol ym mhopeth a wnawn, gan rannu arfer gorau ar draws Timau a sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth gadarn.

## YR EGWYDDORION SY'N SAIL I'N MODEL

**SICRHAU ANSAWDD:** Byddwn yn gwneud mwy o waith sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr ein bod yn wrthi'n gyson yn adolygu budd pennaf defnyddwyr gwasanaethau ac yn sicrhau y darperir cefnogaeth i safon uchel

**TECHNOLEG**: Byddwn yn defnyddio technoleg er mwyn bod yn effeithlon wrth ddyrannu gwaith, i symleiddio gwaith sy'n digwydd dro ar ôl tro, ac i ddarparu cymorth. Byddwn yn bwrw ymlaen â strategaeth systemau sy'n arolygu data i sicrhau y caiff data ei rannu'n awtomataidd rhwng systemau a sicrhau defnydd effeithlon o brosesau data a chofnodi.

**CYNALIADWYEDD:** Byddwn yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd sydd nid yn unig yn addas at y diben i ddiwallu angen dinasyddion Ceredigion, ond hefyd yn effeithlon ac yn gynaliadwy ar gyfer gofynion yr Awdurdod yn y dyfodol.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## YR EGWYDDORION SY'N SAIL I'N MODEL

Dylai profiadau deimlo fel rhai sy'n canolbwyntio ar y cleient ac mae'r Model Gydol Oed a Llesiant yn mynd ati i roi parhad a diogelwch mewn perthynas â:

- Mynediad at adnoddau cymorth hyblyg
- Osgoi rhwystrau i gydweithredu, e.e. byddai pasio atgyfeiriadau yn ôl ac ymlaen yn wastraffus a ddim yn gleient-ganolog
- Atal dyblygu
- Atal y model rhag datblygu ymdeimlad o 'brosesu' ac yn lle hynny gadw'r ffocws ar yr unigolyn, eu llesiant a'u hanghenion gofal a chymorth

# Taith yr unigolyn drwy’r Model Gydol Oed a Llesiant …erbyn 2027

Ein nod yw sicrhau datrysiad ar y cysylltiad cyntaf o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fo hynny’n briodol.

Asesiadau Cymesur a chyfeirio – bydd hyn yn rhyddhau capasiti ac amser ar gyfer gofal mwy cymhleth wedi’i gynllunio a gwasanaethau arbenigol gydol oedran pan nodir anghenion gofal a chymorth cymwys.

## 70%

- Atal
- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Cyffredinol

- Hunangymorth a broceriaeth
- Sgyrsiau sy’n grymuso
- Canolfannau llesiant
- Cysylltu pobl ag atebion lleol a hunangymorth dan arweiniad

## 20%

- Cymorth tymor byr

- Wedi’i arwain yn broffesiynol a’i gefnogi gan wirfoddolwyr
- Lleoliadau cymunedol
- Amlddisgyblaethol gan gynnwys y sector gwirfoddol a phartneriaid


## 10%

- Cymorth hirdymor

- Wedi’i arwain yn broffesiynol
- Ymyriadau statudol
- Amlddisgyblaethol
- Cefnogaeth gwaith cymdeithasol arbenigol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Dyma sut byddwn yn cynnig dull di-dor a chymesur o roi gofal a chymorth




Darparu neu drefnu gofal a chymorth a reolir sy'n benodol i'r unigolyn pan na all pobl ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain a chadw eu hunain yn ddiogel

Cymorth tymor byr dros dro a chefnogaeth ddwys i helpu unigolion i gryfhau eu gwytnwch ac adennill annibyniaeth

Cymorth lefel isel am y tymor byr wedi'i ddarparu'n uniongyrchol neu'n hunanreoledig i helpu pobl i ddatrys pryderon sy'n codi mor gynnar â phosibl. Cefnogaeth ar-lein lle bynnag y bo modd. Rhywun i helpu os oes angen hynny.

Gwasanaethau cyffredinol hygyrch a chyflym sy'n cysylltu pobl â'u cymunedau (e.e. ysgolion, ffyrdd, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden)
Gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol, partneriaid a sefydliadau gwirfoddol i gynnig ystod o gefnogaeth

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Sut bydd ymarfer yn newid yng Ngheredigion

| SYMUD O DDULL GWEITHIO SY'N… | I DDULL GWEITHIO SY'N… |
|---|---|
| Gwneud pethau i bobl a throstynt ac yn creu dibyniaeth | Canolbwyntio ar alluogi pobl i wneud pethau drostynt eu hunain, gan hyrwyddo annibyniaeth |
| Yn ystyried yr unigolyn ar ei ben ei hun, ar wahân i eraill | Yn cefnogi'r teulu a'r rhwydwaith cymdeithasol |
| Yn ymateb i'r hyn nad yw pobl yn gallu ei wneud | Yn galluogi pobl i adeiladu ar yr hyn y gallant ei wneud a'r gefnogaeth sydd ganddynt o'u cwmpas |
| Yn cael ei arwain gan yr ymatebion gwasanaethau traddodiadol | Yn cael ei arwain gan sgwrs gadarn ar beth sy'n bwysig' er mwyn nodi'r pethau sydd o bwys i'r unigolyn |
| Yn seiliedig ar 'yr un peth i bawb' | Yn greadigol ac yn arloesol ac wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn a'i rwydwaith |
| Yn osgoi risg ac yn uwchgyfeirio achosion i ofal a chymorth a reolir ar y pen uchaf | Yn hyrwyddo cymryd risg yn gadarnhaol ac yn galluogi pobl i wneud dewis o ran sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu<br>Yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio |




Byddwn yn alinio gwasanaethau er mwyn i ni gael 'un person/un pwynt cyswllt' yn gweithio/cydlynu gyda'r teulu, yn hytrach na sawl person o wasanaethau gwahanol ar draws y model er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau a chefnogaeth.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio

Dyma'r model ymarfer y byddwn yn ei fabwysiadu ar draws ein harweinyddiaeth, prosesau a systemau, ymarfer, comisiynu a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'r holl bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi.

**Llais, dewis a rheolaeth**

**Yn seiliedig ar gryfderau**

**Cymryd risgiau cadarnhaol**

**Cydgynhyrchu**

**Ffocws ar ganlyniadau (yr hyn sy'n bwysig)**

**Yn gymesur**

**Arwyddion diogelwch**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio – dyma sut bydd yn edrych

## Llais, dewis a rheolaeth

**Bydd POBL**

- yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau sy’n ystyrlon iddyn nhw.
- yn gallu mynegi pwy ydyn nhw a beth maen nhw eisiau i fod yn wahanol yn eu bywydau.

**Bydd STAFF**

- yn ystyried barn a phrofiadau’r bobl y maent yn eu cefnogi er mwyn iddynt gael ‘dewis’ a ‘rheolaeth’ mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw.
- yn cynllunio, gweithredu ac yn gwerthuso’r dewisiadau y mae'r unigolyn wedi’u gwneud, gan wneud hynny gyda’r unigolyn a’i rwydwaith.

**Bydd ARWEINWYR**

- yn sicrhau bod ymarferwyr yn datblygu perthynas ryngbersonol rhwng pobl, eu teuluoedd, gofalwyr a rhwydweithiau a’r staff sy’n gweithio gyda nhw.
- yn gwrando’n astud ac yn ymateb i brofiadau staff wrth weithio yn y ffordd hon.

## Yn seiliedig ar gryfderau

**Bydd POBL**

- yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o ran eu hannibyniaeth, eu gwytnwch, eu gallu i wneud dewisiadau a’u lles.
- yn gallu pwyso ar eu hadnoddau, galluoedd, sgiliau, gwybodaeth a’u potensial personol, ac ati.

**Bydd STAFF**

- yn gwerthfawrogi capasiti, sgiliau, gwybodaeth, cysylltiadau a photensial y bobl y maent yn eu cefnogi, eu rhwydweithiau a’u cymunedau.
- yn cydweithio â’r bobl y maent yn eu cefnogi i’w helpu i wneud pethau drostynt eu hunain.

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiant ac effaith y gwaith a wneir gan staff.
- yn blaenoriaethu datblygiad sgiliau a hyder ymarferwyr

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio – dyma sut bydd yn edrych

## Cymryd risgiau cadarnhaol

**Bydd POBL**

- yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u galluogi i gael y rhyddid i ddewis a'r hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ar bopeth o sut maen nhw am gael gofal, i sut maen nhw am dreulio eu hamser rhydd.

**Bydd STAFF**

yn gweithio gyda'r unigolyn a'i rwydwaith ac asiantaethau eraill i:

- bwyso a mesur buddion posibl dewis un ffordd o weithredu yn hytrach nag un arall
- nodi'r risgiau posibl dan sylw
- edrych y tu hwnt i effeithiau corfforol posibl risg i ystyried agweddau meddyliol risg, megis yr effeithiau ar les neu hunaniaeth
- datblygu cynlluniau a chamau gweithredu sy'n adlewyrchu canlyniadau'r unigolyn

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cefnogi risgiau rhesymol ac yn rhoi caniatâd i ymarferwyr weithio fel hyn
- yn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu unigolion i sicrhau eu canlyniadau ac i gwtogi gymaint ag y bo modd ar ganlyniadau a allai fod yn niweidiol.

## Cydgynhyrchu

**Bydd POBL**

yn teimlo eu bod yn cael rhan weithredol wrth:

- reoli eu lles a gweithio tuag at eu hamcanion personol;
- gwneud penderfyniadau am y gofal a'r gefnogaeth a gânt, mewn perthynas â'r hyn sy'n bwysig i'w bywydau;
- ymgysylltu â gwasanaethau a chefnogaeth a'u mowldio.

**Bydd STAFF**

- yn gweithio tuag at berthynas gyfartal â'r unigolyn a'i rwydwaith er mwyn iddynt fod yn rhan o'r broses gyfan

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cydweithio ag asiantaethau partner i ddylunio a darparu gwasanaethau, gan wneud hynny mewn ffordd integredig lle bynnag y bo modd.
- yn dwyn partneriaid i gyfrif i sicrhau eu bod yn arddel cyfrifoldeb am gefnogi lles unigolion.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y ffordd y byddwn yn gweithio – dyma sut bydd yn edrych

## Ffocws ar ganlyniadau (yr hyn sy'n bwysig)

**Bydd POBL**

- yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw yn eu bywydau

**Bydd STAFF**

- yn cydnabod cryfderau'r unigolyn a'i rwydwaith ac yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy ac yn gweithio tuag at sefydlu ymdeimlad cyffredin o bwrpas y gall pawb gyfrannu ato.
- yn symud i ffwrdd o nodi anghenion a phroblemau yn unig a chyfateb y rheini ag atebion gwasanaeth

**Bydd ARWEINWYR**

- yn ymddiried yn ymarferwyr i wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys penderfyniadau yn ymwneud ag adnoddau a chymryd risg er mwyn cefnogi sicrhau canlyniadau i unigolion.

## Yn gymesur

**Bydd POBL**

- yn teimlo nad yw'r broses a'r dull o'u cefnogi yn ddiangen o ymwthiol a busneslyd
- yn derbyn cefnogaeth mewn da bryd a dim ond gydag agweddau ar eu bywyd lle mae angen hynny

**Bydd STAFF**

- yn darparu'r ymateb lleiaf ymwthiol sy'n briodol i'r risg a gyflwynir.
- yn ystyried ac yn mynd i'r afael â phob risg fel na cheir unrhyw niwed pellach.

**Bydd ARWEINWYR**

- yn cymryd agwedd lawer llai gwrthwynebus, a bydd ymwneud yn gymesurol a pherthynas â pharch wrth wraidd eu hymarfer

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y WELEDIGAETH AC AMCANION

Sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg at wasanaethau rhagorol – rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu – sy'n diogelu ac yn cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd. Datblygu sgiliau a gwytnwch a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau sy'n eu hwynebu.

- Hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol a chefnogi pobl i helpu eu hunain
- Cryfhau teuluoedd er mwyn i blant a phobl ifanc gael aros gyda'u teulu
- Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain
- Mynd ati'n gymesurol wrth gynnig gofal a chymorth a reolir
- Amddiffyn unigolion a'u cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

01

AMCAN

# HYRWYDDO IECHYD A LLESIANT CADARNHAOL A CHEFNOGI POBL I HELPU EU HUNAIN

**CYFLAWNIR HYN DRWY DDATBLYGU:**

- model newydd ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth
- dull haenog o atal
- rhychwant gadarn o gefnogaeth i ofalwyr
- gwneud y gorau o botensial asedau cymunedol

**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Bydd proses ddigidol hawdd ei defnyddio a phroses hunanasesu ar-lein er mwyn i bobl ddod o hyd i atebion drostynt eu hunain
- Bydd dull cydgysylltiedig o roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n rhwydd cael mynediad atynt, er enghraifft trwy ein Canolfannau Lles
- Bydd dull integredig a chymunedol o gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol ac iach
- Cefnogir unigolion i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain gan ddefnyddio adnoddau sydd ganddynt eu hunain ac o'u cwmpas

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Ceredigion

Atgyfeiriadau asiantaethau allanol ar gyfer gofal a chymorth ac adroddiadau diogelu

Llyfrgelloedd CLIC

Porth Cymorth Cynnar
Porth Gofal
Porth Cynnal

**Hunangymorth a hunanwasanaeth ar-lein**

- Gwybodaeth
- Cyngor
- Gwasanaethau ac asesiadau gweithrediadol

**Mynediad â chymorth**

- Gwybodaeth
- Cyngor
- Dechrau sgwrs 'beth sy'n bwysig'
- Cyfeirio at wasanaethau eraill

**Canolfannau Llesiant/ Gwasanaethau yn seiliedig ar leoliad**

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Sgwrs 'Beth sy'n bwysig'
- Hunanreoli â chefnogaeth
- Cyfeirio ac/neu atgyfeiriadau at wasanaethau eraill

**Cefnogaeth ddwys ac arbenigol**

- Wedi'i arwain yn broffesiynol
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth trwy asesiad strwythuredig
- Atgyfeiriadau at wasanaethau eraill

Ymyrraeth yn gynnar ac atal ...... Llesiant ...... Diogelu

02

AMCAN

# CRYFHAU TEULUOEDD ER MWYN I BLANT A PHOBL IFANC GAEL AROS GYDA'U TEULU

**CYFLAWNIR HYN DRWY:**

- cyflwyno dull teulu-cyfan i gael ystod eang o wahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol i weithio gyda theulu. Mae'r dull partneriaeth, cydgysylltiedig hwn yn helpu i adeiladu ar gryfderau teuluoedd a sicrhau newid cynaliadwy yn y meysydd pryder a nodwyd ar gyfer y teulu cyfan
- cydweithio gyda'n partneriaid i ddatrys yr achosion dros broblemau teuluol a ffactorau risg fel cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau a phrofiadau niweidiol ehangach

**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Cefnogir unedau teulu (pob cenhedlaeth) i aros gyda'i gilydd a chefnogi ei gilydd
- Pan fydd teuluoedd yn cyrraedd neu'n agos at gyrraedd adeg o argyfwng byddant yn gallu cael gafael ar gymorth i ymateb i heriau a meithrin eu gwytnwch ar ôl i'r argyfwng fynd heibio

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

03

AMCAN

# GALLUOGI UNIGOLION I FYW'N ANNIBYNNOL YN EU CYMUNEDAU EU HUNAIN

## CYFLAWNIR HYN DRWY DDATBLYGU:

- Tîm Amlddisgyblaethol a phrif fodel gweithio sy'n gydgysylltiedig ac sy'n dwyn ynghyd ystod o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol eraill i ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol trwy ddarparu'r gofal cywir gartref neu yn y gymuned.
- ystod y ddarpariaeth offer a defnyddio technoleg gynorthwyol
- amrywiaeth o opsiynau gwasanaeth sy'n cynnwys adsefydlu, ailalluogi, taliadau uniongyrchol, gwasanaethau dydd a gwell darpariaeth gofal yn y cartref
- dull holistig o gefnogi pobl ifanc wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion
- dull system gyfan o gynorthwyo pobl i fyw gyda chyflyrau tymor hir (gan fod â ffocws penodol ar gymorth dementia)

## BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:

- Bydd gan unigolion fynediad at gymorth amserol i'w helpu i gadw neu adennill eu hannibyniaeth
- Bydd technoleg gynorthwyol yn allweddol wrth gynorthwyo unigolion i gadw eu hannibyniaeth
- Bydd unigolion yn gallu aros yn eu cymunedau lleol gyda chefnogaeth eu rhwydweithiau lle bynnag y bo modd
- Bydd anghenion unigolion yn cael eu diwallu trwy wasanaethau integredig ond gyda'r person mwyaf priodol yn cydlynu eu gofal

04

AMCAN

# MYND ATI'N GYMESUROL WRTH GYNNIG GOFAL A CHYMORTH A REOLIR

## CYFLAWNIR HYN DRWY DDATBLYGU:

- cynnig gofal helaeth sy'n ganolraddol a chydgysylltiedig
- dull gweithredu sy'n rhoi gofal a chymorth mewn da bryd ac sy'n canolbwyntio ar adferiad
- ystod o opsiynau llety i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth yn y tymor byr, canolig a hir
- cymorth cydlynol i fynd i'r afael ag effaith camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a phroblemau ariannol

## BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:

- Bydd unigolion sydd fwyaf bregus yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth gywir i'w helpu i fyw eu bywyd yn y ffordd y maent eisiau gwneud, a hynny wrth sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, eu canlyniadau'n cael eu cyflawni ac unrhyw risgiau yn cael eu rheoli
- Bydd anghenion unigolion yn cael eu diwallu trwy wasanaethau integredig ond gyda'r person mwyaf priodol yn cydlynu eu gofal
- Bydd gan unigolion fynediad at gymorth mewn da bryd sy'n addas iddyn nhw wrth i'w hanghenion newid ac amrywio

05

AMCAN

# AMDDIFFYN UNIGOLION A'U CADW'N DDIOGEL RHAG CAMDRINIAETH, NIWED AC ESGEULUSTOD

**CAIFF HYN EI GYFLAWNI DRWY:**

- arwain ar raglen bwrpasol i sicrhau bod diogelu yn cael ei fabwysiadu i fod yn gyfrifoldeb ar bawb
- datblygu trefniadau diogelu cydgysylltiedig a chymesur ar gyfer oedolion a phlant – o fewn y Cyngor a chydag asiantaethau partner
- canolbwyntio'n benodol ar achosion ac effeithiau cam-drin domestig (e.e. camddefnyddio sylweddau / iechyd meddwl / pwysau ariannol)


**BETH FYDD HYN YN EI OLYGU I'R DYFODOL:**

- Cefnogir unigolion ar y pwynt cynharaf i'w hatal rhag dioddef camdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- Mae teuluoedd i dderbyn cefnogaeth gyson a chydgysylltiedig pan fydd pryderon diogelu yn effeithio ar fwy nag un person yn y teulu
- Bydd llesiant ehangach unigolion yn cael ei hyrwyddo'n weithredol nid y meysydd sy'n destun pryder yn unig

# Y Sylfeini

- Dyrannu adnoddau yn gymesur
- Sicrhau ansawdd a monitro gwariant i sicrhau gwerth am arian (yn fewnol ac yn allanol)
- Archwilio opsiynau ar gyfer codi tâl fel y galluogwyd gan Ran 5 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Gwneud y mwyaf o'r holl ffrydiau cyllido i gefnogi teuluoedd cyfan ac nid targedu at unigolion cymwys yn unig
- Deall a chydnabod enillion ar fuddsoddiad

- Proffil manwl o anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth
- Deall patrymau galw a chyflenwad
- Gwybodaeth gyfoes am yr hyn y mae'r farchnad yn ei gyflenwi a'r hyn sy'n gweithio
- Perthynas gref â darparwyr er mwyn gallu datblygu'r farchnad
- Mwy o fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal





- Arweinyddiaeth drawsnewidiol gref
- Datblygu staff i fod â'r profiad, yr wybodaeth a'r sgiliau cywir
- Dull rheoli ac amgylchedd gwaith sy'n gefnogol
- Cefnogi staff i gydweithio â phartneriaid

- Technoleg gynorthwyol i unigolion
- Systemau data deallus ac integredig
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu ag unigolion
- Mynediad ar-lein i wasanaethau'r Cyngor
- Technoleg ddigidol symudol i staff


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y seilwaith ar gyfer gweithredu




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y seilwaith ar gyfer gweithredu… **yn ymarferol**




- Strategaethau Comisiynu
- Fframwaith Sicrhau Ansawdd
- Strategaeth y Gweithlu
- Strategaeth Atal
- Strategaeth Dementia


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y seilwaith ar gyfer gweithredu

- Monitro cyllid o ran ansawdd
- Comisiynu a chaffael ar sail canlyniadau
- Cydgasglu a gwneud y mwyaf o’r cyllid sydd ar gael (e.e. grantiau)

- Ystyried y teulu cyfan wrth gefnogi plant
- Defnyddio safleoedd ysgolion ac adeiladau cymunedol fel adnoddau cymunedol
- Ysgolion yn cefnogi gwytnwch cymunedau

- Cyd-ddibyniaethau rhwng partneriaethau strategol
- Sicrhau cysylltiadau â’r strategaeth gorfforaethol




- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy Strategaethau Uchelgais Economaidd
- Gwasanaethau gwladol yn cefnogi addasiadau i adeiladau (e.e. hybiau lles)

- Mannau parcio ceir sy’n hygyrch ac ar gael i gael mynediad at adnoddau cymunedol
- Seilwaith trafnidiaeth sy’n hygyrch ac ar gael

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Y dull pontio i gyflawni'r weledigaeth

## Blwyddyn 1

- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Atal
- Datblygu'r gweithlu

## Blwyddyn 2

- Adsefydlu ac Ailuno
- Comisiynu gwasanaethau

## Blwyddyn 3

- Sicrhau cydbwysedd rhwng gofal a chymorth tymor hir